Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga

Dydd Mawrth, 28 Medi 2021

Dear Cynghorwyr,

**CABINET**

Gofynnir i chi fynychu cyfarfod **Cabinet** a gynhelir yn **County Hall, Usk - Remote Attendance** ar **Dydd Mercher, 6ed Hydref, 2021,** am **3.00 pm.**

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

2. Datganiadau o Fuddiant

3. I ystyried yr adroddiadau canlynol (copïau ynghlwm):

   i. **RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF CYNGOR SIR FYNWY - CANLYNIAD YMGYNGHORIAD STATUDOL I SEFYDLU YSGOL DRWODD (4-19) YN Y FENNI** — 1 - 92

   Is-adran/Wardiau yr effeithir arnynt: Cantref, Castell, Croesonen, Grofield, Landsdown, Maerdy, Priordy, Bryn Llanelli, Llanofer, Glanfa Goetre, Llanwenarth Ultra, Llan-ffwyst Fawr and Chrucornau

   Pwrpas: Diben yr adroddiad yw rhoi canlyniad yr ymgynghoriad diweddar i aelodau'r Cabinet ynghylch bwriad yr Awdurdod i sefydlu ysgol gyfan gyda chanolfan arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth yn y Fenni, ar safle Ysgol Gyfun y Brenin Harri VIII.

   Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adroddiad ymgynghori i'r Cabinet ac yn gofyn am eu cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam nesaf h.y. cyhoeddi hysbysiadau statudol.

   Dylai'r Aelodau adolygu'r newidiadau a gynigir i'r cynnig cyhoeddedig. Yr agwedd fwyaf arwyddocaol yw'r newid o'r ysgol fel ysgol 4-19 oed gyda lleoliad meithrin nas cynhelir i 3-19 oed gyda lleoliad meithrin a gynhelir.

   Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod cytundeb i fwrw ymlaen â'r prosiect a'r cyllid cysylltiedig yn destun penderfyniadau ar wahân. Diben yr adroddiad hwn yw cytuno ar y llwybr trefniadaeth ysgolion a fydd yn caniatáu creu'r ysgol.

   -

   Awdur: Will McLean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc:

   Manylion Cyswllt: willmclean@monmouthshire.gov.uk

i. **GWEITHGOR CRONFA'R DEGWM** 93 - 108

Is-adran/Wardiau yr effeithir arnynt: Pob Un

Pwrpas: Diben yr adroddiad hwn yw gwneud argymhellion i'r Cabinet ar yr Atodlen Ceisiadau ar gyfer cyfarfod 5 Gweithgor Cronfa'r Degwm a gynhaliwyd ar y 23ain Medi 2021.

Awdur: David Jarrett – Uwch Gyfrifydd – Cymorth Busnes Cyllid Canolog

Manylion Cyswllt: davejarrett@monmouthshire.gov.uk

Yours sincerely,

**Paul Matthews**
**Chief Executive**

**PORTFFOLIOS CABINET**

| Cynghorydd Sir | Maes Cyfrifoldeb | Ward |
|---|---|---|
| Richard John | **Arweinydd**<br>Swyddog Arweiniol – Paul Matthews, Matthew Gatehouse<br><br>Strategaeth a Chyfeiriad yr Awdurdod cyfan<br>Adolygu a Gwerthuso Perfformiad yr Awdurdod cyfan<br>Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Datblygu Rhanbarthol<br>Gweithio Rhanbarthol<br>Cysylltiadau â'r Llywodraeth<br>Arweinydd ar Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Llanfihangel Troddi |
| Sara Jones | **Aelod Cabinet dros yr Economi, Dirprwy Arweinydd**<br>Swyddog Arweiniol – Frances O'Brien<br><br>Cadernid a Thwf Economaidd<br>Creu Lleoedd ac Adfywio<br>Buddsoddiad a Stiwardiaeth Canol Trefi<br>Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladau<br>Cysylltiadau Cyhoeddus / Cyfathrebu / Marchnata<br>Sgiliau a Chyflogaeth<br>Cysylltedd Band Eang Cymunedol | Llanofer |
| Robert Greenland | **Aelod Cabinet dros Lywodraethiant a Chynllunio Strategol, Dirprwy Arweinydd**<br>Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matthew Phillips, Matthew Gatehouse<br><br>Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Datblygu Strategol<br>Gwneud Penderfyniadau y Cyngor a'r Pwyllgor Gweithredol<br>Adolygu'r Cyfansoddiad a Gweithredu Newid<br>Y Gyfraith, Moeseg a Safonau<br>Hyrwyddo Democratiaeth a Chyswllt â Dinasyddion<br>Hybiau Cymunedol a Chanolfan Gyswllt<br>Gwasanaeth a Phrofiad Cwsmeriaid yr Awdurdod cyfan | Devauden |

| | | |
|---|---|---|
| Philip Murphy | **Aelod Cabinet dros Adnoddau**<br>Swyddogion Arweiniol – Peter Davies, Frances O'Brien, Matthew Phillips, Julie Boothroyd<br><br>Cyllid<br>Digidol a Thechnoleg Gwybodaeth (yn cynnwys SRS)<br>Adnoddau Dynol, Cyflogres, Iechyd a Diogelwch<br>Cynllunio Argyfwng<br>Caffael Strategol<br>Tir ac Adeiladau (yn cynnwys – Stad, Mynwentydd, Rhandiroedd, Ffermydd)<br>Rheoli Fflyd<br>Cludiant Ysgol a Chymunedol (yn cynnwys comisiynu a chyflenwi)<br>Cynnal a Chadw Eiddo<br>Rheoli Cyfleusterau (yn cynnwys Glanhau Adeiladau ac Arlwyo) | Caerwent |
| Paul Pavia | **Aelod Cabinet dros Addysg**<br>Swyddogion Arweiniol – Will McLean, Ian Saunders<br><br>Addysg Blynyddoedd Cynnar<br>Addysg Statudol Pob Oed<br>Anghenion Dysgu Ychwanegol / Cynhwysiant<br>Hawl /Cynnig Ôl 16<br>Safonau a Gwella Ysgolion (yn cynnwys comisiynu Gwasanaeth Cyflawni Addysg)<br>Dysgu Cymunedol<br>Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif<br>Gwasanaeth Ieuenctid / Gwasanaeth Addysg Awyr Agored / Cynllun Gwobr Dug Caeredin | Larkfield |
| Lisa Dymock | **Aelod Cabinet dros Lesiant Cymunedol a Chyfiawnder Cymdeithasol**<br>Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Ian Saunders, Julie Boothroyd, Matt Gatehouse<br><br>Anghydraddoldeb Cymunedol (Iechyd, Incwm, Maeth, Anfantais, Gwahaniaethu, Ynysigrwydd)<br>Hybu'r Gymraeg<br>Strategaeth Tai, Cyflenwi / Atal Digartrefedd<br>Safonau Masnach / Iechyd yr Amgylchedd / Lles Anifeiliaid / Iechyd Cyhoeddus / Trwyddedu<br>Diogelwch Cymunedol (yn cynnwys cyswllt â'r Heddlu)<br>Gwasanaeth Cofrestryddion<br>Gweithgaredd Corfforol (yn cynnwys Canolfannau Hamdden, Chwaraeon, Teithio Llesol, Chwarae)<br>Cefn Gwlad, Bioamrywiaeth, Hawliau Tramwy Cyhoeddus | The Elms |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwybodaeth Ymwelwyr / Amgueddfeydd / Theatr / Atyniadau | |
| Penny Jones | **Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithas, Diogelu ac Iechyd**<br>Swyddog Arweiniol – Julie Boothroyd<br><br>Gwasanaethau Plant<br>Maethu a Mabwysiadu<br>Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid<br>Gwasanaethau Oedolion<br>Diogelu Awdurdod Cyfan (Plant ac Oedolion)<br>Anableddau<br>Iechyd Meddwl | Rhaglan |
| Jane Pratt | **Aelod Cabinet dros Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth – Jane Pratt**<br>Swyddog Arweiniol– Frances O'Brien, Matthew Gatehouse<br><br>Arweinydd yr Awdurdod cyfan ar Newid Hinsawdd/ Datgarboneiddio<br>Trafnidiaeth Integredig Strategol (yn cynnwys cynllunio trafnidiaeth)<br>Trafnidiaeth Gyhoeddus<br>Priffyrdd – Gweithgareddau Sirol / Awdurdod Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA)<br>Casglu Gwastraff / Ailgylchu / Glanhau Strydoedd / Goleuo Strydoedd<br>Cynnal a Chadw Tiroedd, Parciau, Gofodau Agored a Chyfleusterau Cyhoeddus<br>Lliniaru a Rheoli Llifogydd ac Adferiad | Rhiw Llanelli |

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.